

CYPE(6)-06-21 - Papur i'w nodi 5

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Ein cyf/Our ref MA/JMEWL/2852/21

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

09 Tachwedd 2021

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr yn gofyn am ragor o wybodaeth am rai o'r materion a drafodwyd gennym yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 23 Medi. Mae fy ymateb wedi'i nodi isod.

Mynd i'r afael â phryderon parhaus am effaith COVID-19 ar ysgolion

Ar 14 Hydref, rhoddais [ddiweddariad i'r aelodau](#) ar y gwaith parhaus i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar addysg ac i sicrhau bod pob lleoliad yn parhau mor ddiogel â phosibl. Dengys data interim fod 86.0% o'r holl ddisgyblion ar gyfartaledd yn bresennol yn yr ysgol yn ystod yr wythnos rhwng 18 Hydref a 22 Hydref 2021.

Ochr yn ochr â'r dadansoddiadau o ddata yr ydym yn ymgymryd â hwy'n barhaus, mae'n bwysig bod gennym y ddealltwriaeth orau bosibl o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gynnal adolygiad cynhwysfawr o batrymau presenoldeb, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu ymyriadau polisi yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi a dehongli ffynonellau data ar gyfraddau presenoldeb/diffyg presenoldeb cyfredol mewn ysgolion. Rydym hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid addysg i gasglu gwybodaeth am y sefyllfa sy'n dod i'r amlwg a pha fesurau/ymyriadau sydd eu hangen i ail-ymgysylltu dysgwyr yn well. Yn ogystal, cyhoeddwyd [canllawiau presenoldeb ar gyfer ysgolion](#) <<https://llyw.cymru/presenoldeb-mewn-ysgolion-lleoliadau>> ar 20 Medi i adlewyrchu'r cyd-destun presennol.

Mae cyfraddau achosion ymhlith y rhai 5-11 a 12-16 oed wedi cynyddu ers dechrau'r tymor ysgol, er bod yr [adroddiad ysgolion diweddaraf a gyhoeddwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru](#) yn dangos bod cyfraddau achosion yn y ddau grŵp oedran yn lleihau. Rydym yn parhau i fonitro'r data'n ofalus ac yn ymateb yn bwylllog cyn dod i unrhyw gasgliadau o unrhyw dueddiadau.

Cyn dechrau tymor yr hydref lanswyd ein hymgyrch Yn ôl i'r Ysgol/Coleg. Datblygwyd amrywiaeth o ddeunyddiau cyfathrebu a marchnata ar gyfer dysgwyr a'r gweithlu yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

amlinellu trefniadau gweithredol wedi'u diweddarau mewn ysgolion a cholegau, a gwybodaeth am drefniadau profi gyda Dyfeisiau Llif Unffordd a newidiadau i drefniadau hunanynysu. Ers dechrau'r tymor rydym wedi ceisio ymateb i bryderon gan ysgolion a cholegau yn gyflym. Gwnaethom hefyd gymryd camau rhagweithiol i gefnogi ysgolion i ddelio â chyfathrebu maleisus gan grwpiau gwrth-frechu.

Mae newidiadau i bolisiâu, er enghraifft [y profion ychwanegol ar gyfer dysgwyr oedran ysgol uwchradd](#) lle mae aelod o'u haelwyd wedi profi'n bositif am COVID-19, wedi'u hategu gan gyfathrebu ag ysgolion a rhieni. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi arwain ar ddarparu gwybodaeth i rieni a dysgwyr ar frechu pobl ifanc 12-15 oed.

Yn wythnosol, rhennir amserlen o'r cyfathrebiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a deunyddiau cyfathrebu a marchnata gyda rhanddeiliaid allweddol i'w defnyddio yn eu gweithgarwch cyfathrebu. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi gweld cynnydd amlwg yn y broses o rannu'r deunyddiau hyn, yn enwedig gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae gwerthusiad llawn o'r gweithgaredd hwn ar y gweill ar hyn o bryd i lywio ein trefniadau cyfathrebu a'n negeseuon yn y dyfodol.

Gweithio gyda'r Gweinidog Iechyd i weld beth arall y gellir ei wneud i gefnogi timau Profi, Orlhain, Diogelu a lleoliadau

Ar 8 Hydref, gwnaethom gyhoeddi [diweddiariad i'r Cynllun Rheoli'r Coronafeirws](#) ar gyfer hydref a gaeaf 2021, lle nodwyd rôl y gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu.

Dros yr wythnosau diwethaf mae cyfraddau achosion uchel wedi rhoi timau Profi, Orlhain, Diogelu o dan bwysau mawr, gan fod y nifer cyfunol o achosion a chysylltiadau wedi rhagori ar bob lefel flaenorol o weithgarwch. Serch hynny, drwy flaenoriaethu llifoedd gwaith, maent yn parhau i gyrraedd y mwyafrif llethol o achosion ac yn rhoi cyngor i achosion cadarnhaol a'u cysylltiadau.

Gan nad yw cysylltiadau'n gorfod ynysu mwyach oni bai eu bod heb eu brechu, rydym yn bwriadu canolbwyntio'r gwaith olrhain cysylltiadau lle y gall gael yr effaith fwyaf. Mae ein dull gweithredu diwygiedig o olrhain cysylltiadau yn cynnwys:

- **Diogelu unigolion sy'n agored i niwed.** Yn hytrach na mynd ati i olrhain pob achos a'u cysylltiadau yn unigol, byddwn yn ceisio targedu gwaith ein timau olrhain cysylltiadau er mwyn iddynt allu canolbwyntio ar ganfod y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau penodol (fel gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol neu wasanaethau brys) neu'r rhai sydd heb eu brechu'n llawn.
- **Gweithio tuag at fod yn ddigidol yn bennaf.** Byddwn yn awtomeiddio mwy o'r broses olrhain cysylltiadau drwy gysylltu'n ddigidol a thargedu galwadau at y rhai sydd angen cyngor penodol.
- **Rheoli risgiau teithio rhyngwladol.** Mae'r camau i lacio'r gofynion teithio rhyngwladol ymhellach yn parhau i beri risg sylweddol o fewnforio achosion ac amrywiolion sy'n peri pryder o dramor. Mae'n hanfodol o hyd bod teithwyr sy'n cyrraedd Cymru yn cael eu holrhain i sicrhau bod y rhai y mae'n ofynnol iddynt ynysu yn ymwybodol o'u dyletswydd gyfreithiol i wneud hynny.

Prif nod Profi, Orlhain, Diogelu yw cefnogi hunanynysu er mwyn lleihau ac atal lledaeniad pellach. Mae nodi'r rhai y mae angen iddynt ynysu yn elfen hanfodol, ond mae'r un mor

bwysig darparu'r cymorth sy'n helpu pobl i wneud y peth iawn a chydymffurfio â'r gofyniad hwnnw. I gydnabod y rôl hollbwysig y mae olrhain cysylltiadau yn ei chwarae, rydym yn ymestyn y cyllid a ddarperir i dimau olrhain cysylltiadau Profi, Orlhain, Diogelu tan fis Mehefin 2022 fel y gall eu gwaith pwysig i dorri cadwyni trosglwyddo Covid-19 barhau.

Eglurhad o'r rheolau hunanynysu i bobl dan 18 oed mewn perthynas â chysylltiadau agos ar eu haelwyd

Ar 29 Hydref, cyhoeddodd y Prif Weinidog newid i'r canllawiau hunanynysu. Rhaid i oedolion sydd wedi'u brechu'n llawn a phlant rhwng pump ac 17 oed hunanynysu os oes gan rywun ar eu haelwyd symptomau neu wedi profi'n positif am Covid-19 nes eu bod wedi cael canlyniad prawf PCR negyddol. Os nad ydynt wedi'u brechu, rhaid iddynt hunanynysu am 10 diwrnod.

Mae'r newid hwn yn cael ei wneud i adlewyrchu'r dystiolaeth newydd, er bod cael eich brechu'n llawn yn lleihau'r risg o gael eich heintio, bod siawns y gallai un o bob pedwar person sydd wedi'i frechu'n llawn ddal Covid-19 gan rywun y maent yn byw gydag ef.

Mae [rhagor o wybodaeth a chyngor ar gyfer amgylchiadau penodol](#) – er enghraifft os yw dyddiad arholiad yn cyd-fynd â chyfnod hunanynysu ar gyfer dysgwr – wedi'u cyhoeddi ar-lein.

Disgwyliadau gan ddarparwyr addysg uwch mewn perthynas â threfniadau addysgu ac asesu?

Rydych wedi nodi mai mater i brifysgolion unigol yw trefniadau addysgu ac asesu, fel cyrff annibynnol. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn glir nad ydym am weld unrhyw fyfyrwyr yn cael eu cosbi'n annheg am astudio yn ystod y pandemig. Rydym yn parhau i weithio gyda CCAUC a'r sector addysg uwch i ddeall effaith y tarfu ar fyfyrwyr a'u sefydliadau. Rwy'n ymwybodol bod y pandemig wedi gofyn am newidiadau i addysgeg, dysgu, addysgu ac asesu, ond hefyd wedi cyflymu rhai newidiadau datblygiadol. Yn benodol, mae sefydliadau wedi manteisio ar y cyfleoedd a gynigiwyd gan y pandemig i ailgynllunio asesiadau er mwyn eu gwneud yn fwy ystyrlon a hygyrch i bob myfyriwr, ac i leihau'r potensial ar gyfer camymddygiad academaidd.

Mae sefydliadau wedi mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau asesu yn 2021/22 ac wedi gwerthuso'r dulliau a ddefnyddiwyd yn ystod y pandemig, gan ystyried sut y gallai'r datblygiadau arloesol hyn fod o fudd i fyfyrwyr wrth symud ymlaen.

Diogelu'r Lwfans Cynhaliath Addysg

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod pobl ifanc yn parhau mewn addysg y tu hwnt i oedran ysgol gorfodol. Ar hyn o bryd mae'r Lwfans Cynhaliath Addysg yn cefnogi tua 18,000 o ddysgwyr y flwyddyn ac mae wedi'i gynllunio i gymell a chefnogi pobl ifanc cymwys i fynd ymlaen i astudio yn y chweched dosbarth neu yn y coleg, gan ddarparu lwfans wythnosol i helpu gyda chostau wrth iddynt astudio. Mae ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddiogelu'r Lwfans ar gyfer y flwyddyn hon, a blynyddoedd dilynol y llywodraeth hon, yn dangos nad ydym yn bwriadu dileu'r cymorth hwn. Mae'r £30 yr wythnos, a delir bob pythefnos, yr un fath â'r hyn a delir yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Diddymodd Lloegr y Lwfans Cynhaliath Addysg yn 2011.

Er nad oes gennym gynlluniau ar hyn o bryd i gynyddu'r swm a delir o dan y Lwfans Cynhaliath Addysg, byddai angen cynllunio'n ofalus ar unrhyw ystyriaeth yn y dyfodol yn

sgil cynyddu'r cymorth wedi'i dargedu i'r rhai sydd ei angen fwyaf a'r cyfleoedd addysg, gwaith a hyfforddiant ychwanegol a grëwyd gan y Warant leuenctid.

Disgwyliadau Cymwysterau Cymru mewn perthynas â diwygio cymwysterau galwedigaethol

Mae rhaglen o adolygiadau sector Cymwysterau Cymru yn ystyried p'un a yw'r cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru yn diwallu anghenion dysgwyr Cymraeg. Mae adolygiadau sector ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant, gwasanaethau adeiladu ac adeiladau a pheirianeg a gweithgynhyrchu uwch wedi dod i ben a, lle bo'n briodol, wedi arwain at ddatblygu cymwysterau a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.

Mae Cymwysterau Cymru hefyd yn cynnal ail raglen o adolygiadau sector sy'n canolbwyntio ar adolygu argaeledd cymwysterau ôl-16 mewn ymateb i'r newidiadau polisi yn Lloegr. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r cyntaf o'r adolygiadau hyn, a oedd yn canolbwyntio ar Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus, ym mis Medi 2021. Mae'r adolygiad o Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid wedi dechrau'n ddiweddar ac mae adolygiadau ar y gweill yn y tair blynedd nesaf gan gynnwys adolygiad o'r sector Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyio sy'n parhau.

Mae'r Adran Addysg yn Lloegr wrthi'n adolygu'r holl gymwysterau ôl-16 ar lefel 3 ac is. Mae'r adolygiad hwn yn cynnig y bydd unrhyw gymhwyster nad oes unrhyw un wedi cofrestru ar ei gyfer neu lle mae'r niferoedd yn isel, neu sy'n gorgyffwrdd â lefelau T, yn cael ei ddadariannu yn Lloegr erbyn mis Awst 2023. Ni fydd yr effaith wirioneddol ar Gymru yn hysbys nes i'r Adran Addysg a Sgiliau ryddhau'r rhestr o gymwysterau y mae'n bwriadu rhoi'r gorau i'w hariannu, gyda'r cyntaf o'r rhestrau hyn yn debygol o gael eu hanfon at gyrff dyfarnu erbyn diwedd 2021.

Rwyf wedi gofyn i Gymwysterau Cymru sicrhau eu bod yn cael gweld y cymwysterau sy'n debygol o gael eu hariannu mor gynnar â phosibl a'u bod yn monitro lle mae risg o fylchau yn y farchnad gymwysterau. Fe'm sicrhawyd gan Gymwysterau Cymru eu bod yn cymryd camau priodol i liniaru'r risgiau i Gymru a achosir gan ddiwygiadau'r adolygiad o gymwysterau yn Lloegr.

Faint o arian ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion

Swm y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion eleni (2021-22) yw £2,042,170.

Modelu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r effaith ar sefydliadau yng Nghymru os rheolir mynediad i addysg uwch i fyfyrwyr o Loegr neu os caiff ffioedd eu torri yn dilyn ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad y Panel Annibynnol ar yr adolygiad o addysg ôl-18.

Rydym yn dal i aros am ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad Augar lle mae toriadau i lefelau ffioedd a rheoli niferoedd yn ddau opsiwn posibl ymhlith yr argymhellion, ond mae opsiynau eraill hefyd.

Fel y byddai'r Pwyllgor yn ei ddisgwyl, rydym wedi modelu effaith newidiadau posibl yn Lloegr ac mae'n amlwg y byddai unrhyw ostyngiad mewn lefelau ffioedd yn arwain at gollu incwm sylweddol i'r sector addysg uwch yng Nghymru. Mae goblygiadau hefyd i fyfyrwyr o Gymru a sefydliadau Cymru o ganlyniad i newidiadau Llywodraeth y DU i fesurau rheoli

niferoedd myfyrwyr mewn perthynas â benthyciadau, ond rydym yn aros am fanylion cynigion Llywodraeth y DU. Bydd angen gwneud mwy o waith dadansoddi unwaith y daw'r manylion hyn yn glir a gellir modelu wedyn ar sail llawer mwy cadarn.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Os oes angen eglurhad pellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jeremy Miles', with a stylized, cursive script.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language